Y Pwyllgor Archwilio
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

2 Ebrill 2014

Annwyl Foneddigion

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein hadroddiad i chi ar dwyll, annibyniaeth ac ansawdd.

***Risg o Dwyll***

Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) yn datgan ein bod ni, fel archwilwyr, yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed wedi'u hachosi drwy dwyll neu wall. Ceir crynodeb o briod gyfrifoldebau archwilwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu isod:

| **Cyfrifoldeb yr archwilwyr** | **Cyfrifoldeb y rheolwyr** | **Cyfrifoldeb y pwyllgor archwilio** |
|---|---|---|
| Ein hamcanion:<br>• Nodi ac asesu'r risg y ceir camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol o ganlyniad i dwyll;<br>• Dod o hyd i dystiolaeth archwilio briodol ddigonol ynglŷn â'r risgiau a aseswyd o ran camddatganiadau perthnasol o ganlyniad i dwyll, drwy gynllunio ymatebion priodol a'u rhoi ar waith; a<br>• Ymateb yn briodol i achosion o dwyll neu dwyll a amheuir a nodir yn ystod yr archwiliad. | Cyfrifoldebau rheolwyr mewn perthynas â thwyll yw:<br>• Cynllunio a gweithredu rhaglenni a rheolaethau i atal, rhwystro a chanfod twyll;<br>• Sicrhau bod diwylliant ac amgylchedd yr endid yn hyrwyddo ymddygiad moesegol; a<br>• Cynnal asesiad risg sy'n cynnwys yn benodol risg o dwyll gan ymdrin â chymhellion a phwysau, cyfleoedd, ac agweddau a threfniadau rhesymoli. | Eich cyfrifoldeb chi fel rhan o'ch rôl llywodraethu yw:<br>• Gwerthuso proses y rheolwyr o nodi'r risg o dwyll, rhoi mesurau gwrth-dwyll ar waith a chreu'r awyrgylch priodol ar y brig'; a<br>• Sicrhau yr ymchwilir yn briodol i unrhyw achosion honedig neu achosion a amheuir o dwyll y tynnir eich sylw atynt. |

*PricewaterhouseCoopers LLP, Un Ffordd y Brenin, Caerdydd CF10 3PW*
*T: +44 (0) 29 2023 7000, Ffacs: +44 (0) 29 2080 2400, www.pwc.co.uk*

Mae PricewaterhouseCoopers LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yn Lloegr gyda'r rhif cofrestredig OC303525. Swyddfa gofrestredig PricewaterhouseCoopers LLP yw 1 Embankment Place, London WC2N 6RH. Caiff PricewaterhouseCoopers LLP ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer busnes buddsoddi dynodedig.

*Eich barn ar dwyll*

Gofynnwn y canlynol i'r Pwyllgor Archwilio:

- A oes gennych unrhyw wybodaeth am achosion o dwyll, boed yn achosion gwirioneddol, honedig neu a amheuir, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolwyr?
- Pa fesurau canfod neu atal twyll (e.e. llinellau chwythu'r chwiban) sydd ar waith yn yr endid?
- Beth yw eich rôl mewn perthynas â thwyll?
- Pa brotocolau / gweithdrefnau a roddwyd ar waith rhwng y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am achosion o dwyll, boed yn achosion gwirioneddol, honedig neu a amheuir?

***Bygythiadau i annibyniaeth a chamau diogelu***

Ar ddechrau ein proses archwilio mae'n ofynnol i ni asesu ein hannibyniaeth fel eich archwilydd cyffredinol. Rydym wedi gwneud ymholiadau gyda phob un o dimau PwC sy'n darparu gwasanaethau i chi a'r rheini sy'n gyfrifol o fewn y Cwmni yn y DU am faterion cydymffurfiaeth, ac rydym wedi nodi isod y cydberthnasau y gellir canfod, yn ein barn broffesiynol ni, eu bod yn effeithio ar annibyniaeth a gwrthrychedd ein tîm archwilio, ynghyd â'r camau diogelu cysylltiedig.

| **Cymorth a ddarperir gan PwC** | **Gwerth £'000** | **Bygythiadau i annibyniaeth a chamau diogelu sydd ar waith** |
|---|---|---|
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 150 | **Bygythiad o ran Hunan-adolygu:** Bydd y tîm archwilio yn cynnal y broses o ardystio grantiau ac mae hyn wedi codi oherwydd ein penodiad fel archwilwyr allanol.<br>Nid oes unrhyw fygythiad o ran hunan-adolygu gan ein bod yn ardystio ffurflenni a hawliadau grant a gwblhawyd gan reolwyr.<br>**Bygythiad o ran Hunan-adolygu:** Fel cwmni, nid oes genym unrhyw ddiddordeb ariannol na diddordeb arall yng nghanlyniadau'r Cyngor.<br>Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwaith hwn yn peri bygythiad o ran hunan-fudd.<br>**Bygythiad o ran Rheoli:** Nid yw'n ofynnol i PwC wneud unrhyw benderfyniadau ar ran rheolwyr fel rhan o'r gwaith hwn.<br>**Bygythiad o ran Eiriolaeth:** Ni fyddwn yn gweithredu ar ran rheolwyr, nac ar y cyd â hwy ac rydym felly wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwaith hwn yn peri bygythiad o ran eiriolaeth.<br>**Bygythiad o ran Cynefindra:** Mae'r gwaith yn ategu ein penodiad fel archwilwyr allanol ac nid yw'n peri bygythiad o ran cynefindra.<br>**Bygythiad o ran Bygylu:** Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwaith hwn yn peri bygythiad o ran bygylu gan fod pob swyddog ac aelod wedi ymddwyn yn onest a phroffesiynol. |

*Cydberthnasau a Buddsoddiadau*

Ni ddylai uwch swyddogion ofyn am gyngor ariannol na chyngor treth personol gan PwC na derbyn cyngor o'r fath. Dylai swyddogion anweithredol sy'n cael cyngor o'r fath gennym (efallai mewn perthynas â chyflogaeth gan un o gleientiaid y cwmni) neu sydd hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwr

ar gyfer un o gleientiaid archwilio neu gynghori eraill y cwmni ein hysbysu, er mwyn i ni allu rhoi trefniadau rheoli gwrthdaro priodol ar waith.

Felly, ar ddyddiad y cynllun hwn, cadarnhawn, yn ein barn broffesiynol ni, ein bod yn gyfrifwyr annibynnol mewn perthynas â'r Cyngor, o fewn ystyr gofynion rheoleiddiol a phroffesiynol y DU ac nas amherir ar wrthrychedd y tîm archwilio.

***Cyfathrebu electronig***

Wrth ymgysylltu, efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn cyfathrebu'n electronig â'n gilydd. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu bod y broses o anfon gwybodaeth yn electronig yn ddiogel nac yn rhydd o feirws neu wall a gallai gwybodaeth o'r fath gael ei rhyng-gipio, ei llygru, ei cholli, ei difa, neu gyrraedd yn hwyr neu'n anghyflawn neu fel arall fod wedi'i heffeithio'n andwyol neu'n anniogel i'w defnyddio.

Efallai y bydd angen i bartneriaid a staff PwC gael gafael ar wybodaeth ac adnoddau electronig PwC wrth ymgysylltu. Rydych yn cytuno bod caniatáu iddynt gael gafael ar rwydwaith PwC drwy eich cysylltiad â'r rhyngrwyd yn cynnig buddiannau i bob un ohonom ac y gallant wneud hyn drwy gysylltu eu gliniaduron PwC â'ch rhwydwaith. Mae pob un ohonom yn deall bod caniatáu mynediad o'r fath yn peri risgiau i bob un ohonom, gan gynnwys mewn perthynas â diogelwch a throsglwyddo firysau.

Mae pob un ohonom yn cydnabod na all systemau a gweithdrefnau warantu na fydd risgiau o'r fath a nodwyd yn y ddau baragraff blaenorol yn effeithio ar negeseuon a anfonir, ein priod rwydweithiau a'r dyfeisiau sy'n gysylltiedig â'r rhwydweithiau hyn. Mae pob un ohonom yn cytuno i dderbyn risgiau ac awdurdodi (a) cyfathrebu electronig rhyngom a (b) y defnydd o'ch rhwydwaith a'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd fel y nodir uchod. Mae pob un ohonom yn cytuno i ddefnyddio gweithdrefnau masnachol rhesymol (i) i gadw golwg am y firysau mwyaf cyffredin sy'n hysbys ar y pryd cyn i'r naill neu'r llall ohonom anfon gwybodaeth drwy ddull electronig neu cyn i ni gysylltu â'ch rhwydwaith a (ii) i atal mynediad heb awdurdod at ein priod systemau.

Byddwn yn gyfrifol am ein systemau a'n buddiannau ein hunain ac ni fydd gennych chi na PwC (ym mhob achos yn cynnwys ein priod gyfarwyddwyr, aelodau, partneriaid, cyflogeion, asiantau neu weision) unrhyw atebolrwydd i'ch gilydd ar unrhyw sail, boed mewn contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall, mewn perthynas ag unrhyw wall, difrod, colled, neu hepgoriad sy'n deillio o neu'n gysylltiedig ag anfon gwybodaeth rhyngom yn electronig a'n dibyniaeth ar wybodaeth o'r fath neu ein defnydd o'ch rhwydwaith a'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd.

Ni fydd eithrio atebolrwydd yn y paragraff blaenorol yn gymwys i'r graddau na ellir eithrio atebolrwydd o'r fath yn unol â'r gyfraith.

***Trefniadau ansawdd***

Rydym am ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu eich anghenion bob amser. Os hoffech drafod sut y gellid gwella ein gwasanaeth ar unrhyw adeg neu os byddwch yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar ein gwasanaethau, codwch y mater ar unwaith â'r partner sy'n gyfrifol am yr agwedd honno ar ein gwasanaethau. Os, am unrhyw reswm, byddai'n well gennych drafod y materion hyn â rhywun

arall ar wahân i'r partner hwnnw, cysylltwch â Richard Bacon, ein Partner Arweiniol Sicrwydd y Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus yn ein swyddfa yn Cornwall Court, Birmingham, B3 2DT, neu James Chalmers, Pennaeth Sicrwydd y DU, yn ein swyddfa yn 1 Embankment Place, London, WC2N 6NN. Drwy hyn, gallwn sicrhau yr ymdrinnir â'r pryderon yn ofalus ac yn brydlon. Rydym yn ymrwymo i ymchwilio i unrhyw gŵyn yn ofalus ac yn ddi-oed a gwneud popeth y gallwn i egluro'r sefyllfa i chi. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawl i gwyno i Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr nac i Swyddfa Archwilio Cymru.

Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, gallwch gysylltu â'r Rheolwr Ymchwilio i Gwynion yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy ffonio 029 2032 0500, neu anfon e-bost i complaints@wao.gov.uk. Mae rhagor o fanylion am y broses gwyno ar gael yn www.wao.gov.uk/complaints.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â materion yn y ddogfen hon, cysylltwch â Lynn Pamment ar 029 2080 2390 neu Joe Hargreaves ar 029 2080 2198. Byddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 10 Ebrill ac edrychwn ymlaen at drafod y ddogfen hon gyda chi bryd hynny.

Yn gywir

Lynn Pamment